# COLEG BRENHINOL CERDD A DRAMA CYMRU

# POLISI A GWEITHDREFNAU SY'N LLYWODRAETHU YMDDYGIAD MYFYRWYR 2025/2026

**Gwybodaeth a Rheoli Fersiynau:**

**Teitl: Polisi a Gweithdrefnau sy'n Llywodraethu Ymddygiad Myfyrwyr 2025-6**

**Fersiwn Saesneg:**
Mae fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon ar gael ar yr HWB.

**Statws y ddogfen hon: "Polisi"**
Mae CBCDC yn diffinio'r term polisi fel system fwriadol o ganllawiau i lywio penderfyniadau a sicrhau canlyniadau rhesymol. Datganiad o fwriad yw polisi, ac fe'i gweithredir fel gweithdrefn neu brotocol.

Maent fel arfer yn deillio o sut yr hoffai pobl weld y gofod yn cael ei ddiffinio. Maent yn aml yn ddyheadol eu natur ac, fel arfer, ni fydd goblygiadau cyfreithiol am beidio â'u dilyn.

| Fersiwn | Dyddiad Cyhoeddi | Enw'r Ffeil / Teitl y Ddogfen | Disgrifiad o'r Diwygiad | Awdur / Perchennog | Cymeradwywyd Gan | Dyddiad Cymeradwyo | Dyddiad yr Adolygiad Nesaf |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1.0 | Medi 2015 | Polisi a Gweithdrefnau sy'n Llywodraethu Ymddygiad Myfyrwyr | Fersiwn Gyntaf | Iestyn Henson | Y Bwrdd Academaidd | Medi 2015 | Monitro Blynyddol, Mehefin 2018 |
| 2.0 | Medi 2018 | Polisi a Gweithdrefnau sy'n Llywodraethu Ymddygiad Myfyrwyr | Ail Fersiwn | Iestyn Henson | Y Bwrdd Academaidd | Mehefin 2018 | Monitro Blynyddol, Mehefin 2021 |
| 3.0 | Medi 2020 | Polisi a Gweithdrefnau sy'n Llywodraethu Ymddygiad Myfyrwyr | Trydydd Fersiwn | Iestyn Henson | Y Bwrdd Academaidd | Mehefin 2020 | Monitro Blynyddol, Mehefin 2023 |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 4.0 | Medi 2023 | Polisi a Gweithdrefnau sy'n Llywodraethu Ymddygiad Myfyrwyr | Pedwerydd Fersiwn | Iestyn Henson | Y Bwrdd Academaidd | Mehefin 2023 | Monitro Blynyddol, Mehefin 2025 |
| 5.0 | Medi 2025 | Polisi a Gweithdrefnau sy'n Llywodraethu Ymddygiad Myfyrwyr | Pumed Fersiwn | Rhian Griffiths | Y Bwrdd Academaidd | Gorffennaf 2025 | Monitro Blynyddol, Mehefin 2027 |

**Cynnwys y Ddogfen Polisi hon:**

1. Ymddygiad Myfyrwyr: Cyflwyniad
2. Diffiniadau o Gamymddwyn
3. Gweithdrefnau ar gyfer Ymdrin â Honiadau o Gamymddwyn
   3.1 Egwyddorion Cyffredinol
   3.2 Cyngor ar Weithdrefnau
   3.3 Adrodd am Honiadau o Gamymddwyn
   3.4 Ymateb i'r Ymchwiliad Cychwynnol
   3.5 Adrodd yn Ffurfiol am Honiadau o Gamymddwyn
   3.6 Rheoli Risg a Mesurau Rhagofalus
4. Gwaharddiad dros dro at ddibenion ymchwiliad
5. Honiadau o Gamymddwyn, lle gallai'r Honiad hefyd fod yn Drosedd
6. Ymchwiliadau i Honiadau o Gamymddwyn a Rôl y Swyddog Ymchwilio – *Y Dystiolaeth*
7. Ystyried Adroddiad y Swyddog Ymchwilio a Rôl y Cyfarwyddwr Gweinyddiaeth Academaidd a Phrofiad Myfyrwyr – *Y Cyhuddiad*
8. Pwyllgor Disgyblu – Diben, Aelodaeth, Swyddogaeth a Chyfrifoldebau
9. Cosbau (gweler hefyd Atodiad 1)
10. Eich Hawl i Apelio
11. Rhoi Gwybod i Bobl Eraill am y Canlyniad
12. Cais am Adolygiad gan y Parti sy'n Adrodd/Tystion
13. Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol

**Polisi a Gweithdrefnau sy'n Llywodraethu Ymddygiad Myfyrwyr**

## 1. Ymddygiad Myfyrwyr: Cyflwyniad

1.1 Mae Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru (CBCDC o 'y Coleg' o hyn ymlaen) wedi ymrwymo i ddarparu addysg a chymorth o ansawdd uchel i'w holl fyfyrwyr. Lle bo'n briodol, mae'n gwneud hynny mewn perthynas agos â Phrifysgol De Cymru, yr addysgir ei gradd a'i diplomâu yn CBCDC.

1.2 Er budd holl gymuned y Coleg, disgwyliwn safonau penodol o ymddygiad unigol. Rydym yn hyrwyddo amgylchedd cynhwysol lle caiff gwahanol safbwyntiau, gwerthoedd ac agweddau eu parchu, lle mae unrhyw driniaeth annheg neu wahaniaethu yn cael ei herio a lle mae'r holl staff a myfyrwyr yn gallu gwireddu eu llawn botensial waeth beth fo'u hoedran, anabledd, sefyllfa o ran ailbennu rhywedd, priodas neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd neu famolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, neu gyfeiriadedd rhywiol. Mae'r Coleg yn disgwyl i bob aelod o staff, myfyriwr ac ymwelydd rannu a hyrwyddo'r ethos hwn.

1.3 Mae gan y Coleg hefyd ddyletswydd i gynnal uniondeb ei ddyfarniadau a gweithredir pan ganfyddir twyll neu ymddygiad annheg arall gan fyfyrwyr.

1.4 Pan fyddwch yn cofrestru, rydych yn cytuno i gadw at reoliadau a pholisïau'r Coleg yn ogystal â'r rheini sydd wedi'u cynnwys yn benodol fel rhan o'ch rhaglen astudio. Mae yna hefyd reoliadau ar wahân ynghylch eich defnydd o gyfleusterau Undeb y Myfyrwyr.

1.5 Mae Siarter Myfyrwyr a Datganiad Parch y Coleg yn nodi ein hethos, ein diwylliant a'r cyd-destun ymddygiad rydym yn ei ddisgwyl gan bob myfyriwr, ac mae methu â dilyn ei egwyddorion, pa mor anfwriadol bynnag, hefyd yn debygol o olygu eich bod yn torri ein rheoliadau.

1.6 Mae'r Coleg yn trin achosion o gamymddwyn yn ddifrifol iawn. Pan fydd camymddwyn yn cael ei brofi (yn ôl pwysau tebygolrwydd) rhoddir cosbau, gan gynnwys diarddel o'r Coleg am droseddau difrifol iawn neu sy'n digwydd dro ar ôl tro. Mae'n bwysig iawn felly eich bod yn deall cynnwys y polisi hwn a'r mathau o ymddygiadau na fydd yn cael eu goddef. Gallwch weld holl reoliadau a pholisïau'r Coleg ar HYB y Coleg.

1.7 Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob myfyriwr cofrestredig yn y Coleg. Mae'n berthnasol i ymddygiadau, ble bynnag a phryd bynnag y gall fod wedi digwydd, pan fydd y Coleg yn ystyried ei fod yn niweidiol i aelod arall o'r Coleg, eiddo'r Coleg neu i fuddiannau ac enw da'r Coleg ei hun. Mae'n cynnwys ymddygiadau sy'n codi ar unrhyw adeg pan allech gael eich ystyried yn cynrychioli'r Coleg fel unigolyn neu fel rhan o dîm neu grŵp. Mae hefyd yn berthnasol p'un a ydych yn byw neu'n astudio mewn neuadd breswyl neu mewn rhyw leoliad i ffwrdd o'r Coleg naill ai fel rhan o'ch astudiaethau neu yn dilyn trefniant a wnaed drwy'r Coleg neu Undeb y Myfyrwyr.

1.8 Yn achlysurol, gwneir honiadau mewn perthynas â digwyddiadau sydd wedi digwydd mewn Blynyddoedd Academaidd blaenorol, neu dros fwy nag un flwyddyn. Mewn achos o'r fath, y *weithdrefn* i'w dilyn fydd yr un sy'n weithredol yn ystod y flwyddyn pan fydd y Coleg yn derbyn honiad ffurfiol o gamymddwyn.

1.9 Rhaid i honiadau o gamymddwyn a wneir gan staff yn erbyn myfyrwyr gael eu cyflwyno'n gyntaf o dan y Polisi Urddas yn y Gweithle, drwy gyflwyno cwyn ffurfiol ysgrifenedig i Bennaeth Adran yr aelod staff. Bydd y

Pennaeth Adran yn cyfeirio'r gŵyn at Reolwr Gwaith Achos y Myfyrwyr, a fydd yn ymdrin â´r mater yn unol â Siarter y Myfyrwyr [a'r weithdrefn hon, yn dilyn hynny].

1.10 Rhaid i honiadau o gamymddwyn a wneir gan fyfyrwyr yn erbyn staff gael eu cyflwyno o dan y weithdrefn hon. Felly, bydd honiadau'n cael eu cyflwyno'n gyntaf i Reolwr Gwaith Achos y Myfyrwyr, a fydd yn cyfeirio'r honiad at y Cyfarwyddwr Gweinyddiaeth Academaidd a Phrofiad Myfyrwyr. Yn unol â'r polisi Urddas yn y Gweithle, yr Adran Adnoddau Dynol fydd yn ymdrin â honiad o'r fath. Bydd y protocolau sy'n gysylltiedig â rhannu canlyniadau ymchwiliad yn destun yr un paramedrau â'r hyn sy'n cael ei amlinellu ym mharagraff 11.

## 2. Diffiniad o Gamymddwyn

2.1 Bydd gweithred yn cael ei hystyried yn achos o gamymddwyn, ac felly'n destun camau disgyblu:

- Os yw'n gyfystyr â, neu'n debygol o, amharu'n amhriodol ar weithrediad a gweithgareddau priodol y Coleg: neu
- Os yw'n ymyrryd mewn unrhyw ffordd â gwaith, astudiaethau neu fywyd aelodau'r Coleg; neu
- Os yw'n niweidio, neu'n debygol o niweidio, enw da'r Coleg

2.2 Mae hyn yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r ymddygiadau a restrir isod. Gallwch weld enghreifftiau o sancsiynau a roddir ar y gwahanol fathau o gamymddwyn yn atodiad 1.

2.3 Camymddwyn

2.3.1 torri rheoliadau neu bolisïau/telerau ac amodau'r Coleg e.e. ysmygu mewn mannau na ddynodir ar gyfer hynny, anwybyddu larymau tân, defnyddio offer TG y Coleg neu gyfrif TG y Coleg i lawrlwytho deunydd anawdurdodedig o'r rhyngrwyd;

2.3.2 methu ag ymateb i geisiadau neu gyfarwyddiadau rhesymol gan staff y Coleg;

2.3.3 aflonyddwch sŵn mewn neuaddau preswyl neu adeiladau'r Coleg.

2.3.4 difrod i eiddo'r Coleg neu eiddo myfyrwyr eraill, staff neu ymwelwyr;

2.3.5 defnydd amhriodol o offer unigolion eraill (gan gynnwys defnyddio ffôn/offer TG/proffil cyfryngau cymdeithasol/cyfrif e-bost);

2.3.6 defnyddio cyfleusterau'r Coleg neu hwyluso eraill i ddefnyddio cyfleusterau neu adeiladau'r Coleg heb ganiatâd ymlaen llaw;

2.3.7 bod ym meddiant neu ddefnyddio cyffuriau a waherddir gan y Coleg ac a restrir yma:

- cyffuriau anghyfreithlon a gwmpesir o dan Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971.
- meddyginiaethau ar bresgripsiwn a gwmpesir o dan Ddeddf Meddyginiaethau 1968, nad ydynt wedi'u rhagnodi i'r myfyriwr unigol hwnnw, neu yr ymyrrwyd â hwy er mwyn difwyno manylion y person y maent wedi'u rhagnodi iddo

- sylweddau a Chyfansoddion Seicoweithredol Newydd sy'n creu effaith seicoweithredol drwy ysgogi neu iselhau'r system nerfol ganolog ac sy'n effeithio ar weithrediad meddwl neu gyflwr emosiynol.
- yn ogystal, ni chaiff myfyrwyr ddefnyddio heb esgus rhesymol (na chaniatáu eu defnyddio neu eu paratoi yn eu llety) unrhyw sylweddau sy'n anaddas i'w bwyta gan bobl mewn modd a allai fod yn beryglus i iechyd (h.y. toddyddion neu'n nwyon anadlol). Mae'r uchod hefyd yn berthnasol pan fo myfyriwr yn fwriadol yn caniatáu i berson arall ddefnyddio cyffuriau o'r fath yn ei lety Coleg dynodedig.

2.3.8 Cyflenwi neu fod ym meddiant cyffuriau gyda'r bwriad o gyflenwi cyffuriau a waherddir gan y Coleg, ac a restrir uchod, neu amaethu neu baratoi gyda'r bwriad o gyflenwi cyffuriau o'r fath yn eu llety. Mae hyn hefyd yn berthnasol pan fo myfyriwr o fewn ei lety Coleg dynodedig yn fwriadol yn caniatáu i berson arall wneud hynny.

2.3.9 Prynu neu archebu nwyddau neu wasanaethau ar ran y Coleg heb ganiatâd priodol;

2.3.10 Gwneud honiadau maleisus yn erbyn aelodau eraill o'r Coleg;

2.3.11 Cwynion a/neu ddatganiadau blinderus yn erbyn y Coleg neu ei aelodau;

2.3.12 Cam-drin yn eiriol neu wneud bygythiadau yn erbyn aelodau'r Coleg;

2.3.13 Gwrthod talu dirwy neu gadw at gosb arall a osodir o dan y rheoliad hwn;

2.3.14 Peidio â gadael unrhyw un o safleoedd y Coleg pan fo'n ofynnir yn rhesymol i wneud hynny gan unigolyn awdurdodedig.

2.3.15 Torri'n sylweddol ofynion iechyd a diogelwch, gan beryglu lles myfyrwyr, staff ac ymwelwyr (gan gynnwys, er enghraifft, ymyrryd â larymau tân/synwyryddion mwg neu gyfarpar diogelwch arall yn un o adeiladau'r Coleg);

2.3.16 Cymryd rhan mewn gweithgaredd neu ymddygiad sy'n mynd yn groes i ddatganiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Coleg;

2.3.17 Ymddwyn mewn ffordd sy'n amharu'n afresymol ar ryddid cyfreithlon unrhyw fyfyriwr, aelod staff neu ymwelydd arall, neu sy'n amharu ar neu'n ymyrryd â gweithgareddau a gyflawnir yn briodol gan y Coleg;

2.3.18 Bod ym meddiant arf tanio, arfau eraill, a ffrwydron naill ai'n rhai go iawn neu ffug, ar dir y Coleg;

2.3.19 Ffugio neu gamddefnyddio'n ddifrifol gofnodion y Coleg, gan gynnwys tystysgrifau gradd neu ddiploma;

2.3.20 Peidio â datgelu gwybodaeth berthnasol (e.e. euogfarnau troseddol)

2.3.21 Ffug esgus neu ddynwared pobl eraill, o fewn neu'r tu allan i'r Coleg, mewn cysylltiad â chyraeddiadau academaidd, monitro presenoldeb neu bwyntiau gwirio fisa;

2.3.22 Dwyn, twyll, cam-ddefnyddio, neu esgeulustod difrifol mewn cysylltiad â, chronfeydd neu eiddo o unrhyw fath;

2.3.23 Achosi niwed corfforol, ymddygiad bygythiol, sarhaus neu anweddus;

2.3.24 Troseddau sy'n groes i'r gyfraith droseddol, lle mae'r troseddau hyn yn ymwneud â myfyrwyr eraill, staff neu ymwelwyr, neu'n effeithio'n uniongyrchol ar fuddiannau'r Coleg;

2.3.25 Mewn perthynas â myfyrwyr, staff neu ymwelwyr, unrhyw fwlio, aflonyddu rhywiol, ymosodiad rhywiol, aflonyddu ar-lein, troseddau casineb, digwyddiadau casineb neu stelcian.

2.3.26 Gwahaniaethu yn ymwneud ag unrhyw un o'r canlynol:

- Hil, cenedligrwydd a/neu ddiwylliant
- Crefydd a/neu gred (er enghraifft, Islamoffobia, gwrth-Semitiaeth)
- Rhywedd a hunaniaeth rhyweddol (er enghraifft, cam-drin misogynistaidd, trawsffobia)
- Cyfeiriadedd rhywiol (er enghraifft, homoffobia, deuffobia)
- Anabledd gan gynnwys anableddau dysgu, iechyd meddwl, anableddau corfforol.
- Oedran

2.3.27 Ymddygiad sy'n debygol o ddwyn anfri ar y Coleg.

## 3 Gweithdrefnau ar gyfer Ymdrin â Honiadau o Gamymddwyn

### 3.3 Egwyddorion Cyffredinol

3.1.1 Mae'r Coleg yn annog myfyrwyr a staff i ddwyn i'w sylw ymddygiad unigolion eraill, boed yn ddigwyddiad unigol neu'n batrwm o ymddygiadau, a all ddod o fewn y diffiniadau yn adran 2 uchod.

3.1.2 Mae'r gweithdrefnau wedi'u cynllunio i sicrhau bod y Coleg, wrth ystyried honiadau ac wrth gymryd camau disgyblu yn erbyn myfyriwr, yn gweithredu'n deg ac yn gyson mewn perthynas â'r holl fyfyrwyr.

3.1.3 Bydd pob honiad yn cael ei ystyried o ddifrif ac yn cael ei drin mewn modd sensitif, gwrthrychol, gan barchu hawliau pawb sy'n ymwneud â'r mater.

3.1.4 Bydd y Coleg yn cynnal achosion disgyblu mewn modd cyfrinachol a sensitif. Bydd manylion unigolion sy'n gwneud cwyn yn erbyn eraill yn cael eu cadw'n gyfrinachol i'r graddau y gall hynny fod yn ymarferol. Fodd bynnag, mae gan y rhai a gyhuddir o gamymddwyn yr hawl i ateb, a fydd yn y rhan fwyaf o achosion yn golygu y bydd y rheini sy'n gwneud y cyhuddiad yn hysbys iddynt.

3.1.5 Rhagdybir bod unigolion a gyhuddir o gamymddwyn yn ddieuog o'r honiad nes profir yn wahanol. Bydd ystyried o dystiolaeth, ystyriaeth o gyhuddiad ffurfiol o gamymddwyn ac wedi hynny unrhyw ganlyniad gwrandawiad disgyblu neu apêl i gyd yn cael eu penderfynu yn ôl pwysau tebygolrwydd, yn ôl cred resymol bod yr honiad yn fwy tebygol o gael ei adolygu na pheidio.

3.1.6 Ni fydd y Coleg yn datgelu unrhyw wybodaeth i drydydd parti ynghylch ymchwiliadau a chanlyniadau achosion ymddygiad myfyrwyr oni bai bod eithriadau cyfreithiol o dan y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR).

3.2 Cyngor ar Weithdrefnau

Y Cyfarwyddwr Gweinyddiaeth Academaidd a Phrofiad Myfyrwyr sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am weithrediad y gweithdrefnau disgyblu, a gall weithredu fel pwynt cyswllt neu gyngor ar faterion gweithdrefnol. Bydd y rôl hon yn cael ei chyflawni o ddydd i ddydd gan Reolwr Gwaith Achos y Myfyrwyr. Cynghorir unrhyw fyfyriwr sy'n cael ei gyhuddo o gamymddwyn, neu sy'n ymwneud fel arall ag ymchwiliadau neu wrandawiadau disgyblu, ofyn am gyngor gan Undeb y Myfyrwyr neu gall geisio cymorth Swyddog Llais Myfyrwyr.

3.3 Adrodd am Honiadau o Gamymddwyn

3.3.1 Mae'n bwysig eich bod yn teimlo'n gyfforddus yn mynegi ac yn rhoi gwybod am eich pryderon. Os ydych chi'n ansicr a yw ymddygiad aelod o staff neu fyfyriwr arall yn gyfystyr â chamymddwyn, gallai fod yn ddefnyddiol i chi siarad â rhywun yn gyntaf – Swyddog Llais y Myfyrwyr, Tîm Gwasanaethau Myfyrwyr, eich tiwtor neu'ch goruchwyliwr, neu Undeb y Myfyrwyr o bosibl.

3.3.2 Mae'r Coleg yn gwerthfawrogi y gallai fod nifer o rwystrau adrodd. Felly, mae gennych yr opsiwn i gyflwyno adroddiad ffurfiol yn ddienw neu drwy drydydd parti. Ond, mae'n bosibl na fydd digon o wybodaeth i'r Coleg ymateb i adroddiad dienw, ar wahân i gasglu data at ddibenion monitro. Dyma rai o'r ffactorau a fydd yn cael eu hystyried wrth ymarfer y disgresiwn hwn:

- pa mor ddifrifol yw'r materion a godwyd;
- pa mor gredadwy yw'r pryder;
- pa mor debygol ydyw y bydd yr honiad yn cael ei gadarnhau gan ffynonellau priodoladwy.

3.3.3 Pan fyddwch chi'n barod, byddwch yn cael eich annog i ddefnyddio Cyfleuster Adrodd a Chymorth Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru (cyflwyno 'Adroddiad') fel cam cyntaf. Rhowch cymaint o fanylion ag sy'n briodol yn eich barn chi, gan gynnwys tystiolaeth, gan fynegi'r canlyniad rydych yn dymuno ei weld neu'r opsiwn y byddech chi'n ei ffafrio i ddatrys y mater. Gallai hyn gynnwys cais i beidio â chymryd unrhyw gamau pellach. Bydd y Coleg yn parchu eich cais i beidio â chymryd unrhyw gamau pellach, oni thybir bod angen diogelu unigolion a/neu fod angen gwneud hynny fel rhan o broses rheoli risg effeithiol. Neu, gallwch fynegi pryder ar lafar gydag aelod staff, a llenwi eich adroddiad gyda'ch gilydd fel cofnod o'ch trafodaeth. Mewn amgylchiadau eithriadol gallwch gytuno i aelod o staff lenwi adroddiad ar eich rhan.

3.3. 4 Bydd eich adroddiad yn cael ei dderbyn a'i gydnabod gan Reolwr Gwaith Achos y Myfyrwyr, ac yn rhan o gofnod ar-lein.

3.4 Ymateb i Adroddiad Cychwynnol

3.4.1 Drwy ymgynghori â'r Cyfarwyddwr Gweinyddiaeth Academaidd a Phrofiad Myfyrwyr, bydd Rheolwr Gwaith Achos y Myfyrwyr yn ystyried ac yn dynodi unrhyw adroddiadau sydd, yn unigol neu fel rhan o batrwm, yn galw am ymchwiliad pellach o dan ddarpariaethau'r gweithdrefnau hyn.

3.4.2 Fel arfer cewch eich gwahodd i gwrdd â Rheolwr Gwaith Achos y Myfyrwyr neu aelod arall o staff (wyneb yn wyneb neu ar-lein) i drafod eich adroddiad a'r opsiynau a'r ffyrdd posibl o symud ymlaen, gan gynnwys datrys yn anffurfiol ac yn gynnar a/neu gyflwyno honiad ffurfiol o gamymddwyn. Cewch ddod â rhywun gyda chi i'r cyfarfod hwn, sef "person cymorth". Gallai'r person cymorth fod yn berthynas, yn ffrind, yn gynrychiolydd ar ran Undeb y Myfyrwyr, neu'n Swyddog Llais y Myfyrwyr. Mae'r person cymorth yn rhoi cefnogaeth yn ystod y cyfarfod, ond does dim disgwyl i'ch person cymorth eich cynrychioli nac eirioli ar eich rhan fel arfer oni bai y cytunwyd ar hynny ymlaen llaw fel addasiad rhesymol. Rhaid darparu enw'ch person cymorth, ei berthynas â chi, a'i gyfeiriad e-bost i Reolwr Gwaith Achos y Myfyrwyr cyn y cyfarfod. Mae Rheolwr Gwaith Achos y Myfyrwyr (neu enwebai) yn cadw'r hawl i wrthod gadael i berson cymorth fod yn bresennol os penderfynir bod achos o wrthdaro rhwng buddiannau'n gysylltiedig â´r person a enwebwyd. Yn yr achos hwnnw, byddwch yn cael cyfle i enwebu person cymorth gwahanol.

3.4.3 Bydd Rheolwr Gwaith Achos y Myfyrwyr yn gwneud nodiadau am y cyfarfod, ac yn eu rhannu â chi ar ôl y cyfarfod.

3.4.4 Os byddwch chi'n penderfynu yn ystod y cyfarfod eich bod am gyflwyno honiad ffurfiol o gamymddwyn, a bod hynny'n cael ei gofnodi yn nodiadau'r cyfarfod, bydd y gweithdrefnau hyn yn dechrau cael eu rhoi ar waith yn dilyn hynny ar sail eich adroddiad chi a nodiadau'r cyfarfod. Yn y sefyllfa hon, byddwch chi'n "barti sy'n adrodd".

3.4.5 Os byddwch chi'n penderfynu ar ôl y cyfarfod eich bod am gyflwyno honiad ffurfiol o gamymddwyn, rhaid i chi lenwi a chyflwyno'r ffurflen honiad o gamymddwyn a chynnwys yr wybodaeth ganlynol:

- enw'r person/y bobl y gwneir yr honiadau yn ei erbyn/eu herbyn
- natur yr honiad o gamymddwyn
- pryd ac ym mhle y digwyddodd yr honiad o gamymddwyn
- tystion posibl
- yr holl dystiolaeth sydd ar gael i ddilysu'r honiad
- manylion unrhyw gamau sydd eisoes wedi cael eu cymryd.

Yn y sefyllfa hon, byddwch chi'n "barti sy'n adrodd".

3.5 Adrodd yn Ffurfiol am Honiadau o Gamymddwyn

3.5.1 Y Cyfarwyddwr Gweinyddiaeth Academaidd a Phrofiad Myfyrwyr sy'n gyfrifol am oruchwylio'r broses o ddelio â honiadau ffurfiol, gan ddefnyddio cyngor Rheolwr Gwaith Achos y Myfyrwyr (neu enwebai).

3.5.2 Ar ôl i honiad ffurfiol ddod i law, bydd y Cyfarwyddwr Gweinyddiaeth Academaidd a Phrofiad Myfyrwyr yn ystyried natur yr honiad, ei ddifrifoldeb tybiedig, a'r ystod o ganlyniadau posibl. Yn dilyn hynny, gall ddefnyddio ei ddisgresiwn i benderfynu a yw honiad ffurfiol yn galw am ymchwiliad llawn. Dyma enghreifftiau posibl lle na fyddai galw am ymchwiliad llawn o bosibl (cofiwch nad yw'r rhestr hon yn gyflawn):

- ymddygiad gwrthgymdeithasol o dan ddylanwad alcohol;

- defnyddio iaith ac ymddygiad amhriodol;
- mân effaith mewn cyd-destunau dysgu, addysgu a pherfformiad.

Mewn achosion o'r fath, gall y Cyfarwyddwr Gweinyddiaeth Academaidd ddelio â'r honiad drwy gamau gweithredol yn hytrach nag ymchwiliad llawn, ond dim ond pan fydd y gosb briodol ar gyfer gweithgaredd o'r fath ar y lefel isaf – hynny yw, rhybudd llafar neu ysgrifenedig.

3.5.3 Os byddwch chi'n gwneud honiad yn erbyn ymddygiad aelod o'r staff, bydd y Cyfarwyddwr Gweinyddiaeth Academaidd a Phrofiad Myfyrwyr yn cyfeirio'ch honiad at yr adran Adnoddau Dynol, a fydd yn ymchwilio i'r honiad.

3.5.4 Os gwneir honiad ffurfiol o gamymddwyn yn eich erbyn chi, bydd rhaid i chi (fel y 'parti sy'n ymateb') gwrdd â'r Cyfarwyddwr Gweinyddiaeth Academaidd a Phrofiad Myfyrwyr (neu enwebai) wyneb yn wyneb i gael eich hysbysu'n ffurfiol am yr honiad, a'ch hawl i ymateb ac i gyflwyno gwrth-honiad. Mae gennych hawl i ddod â rhywun gyda chi i'r cyfarfod hwn, sef "person cymorth". Gallai'r person cymorth fod yn berthynas, yn ffrind, yn gynrychiolydd ar ran Undeb y Myfyrwyr, neu'n Swyddog Llais y Myfyrwyr. Mae'ch person cymorth yn rhoi cefnogaeth yn ystod y cyfarfod, ond does dim disgwyl i'ch person cymorth eich cynrychioli nac eirioli ar eich rhan fel arfer oni bai y cytunwyd ar hynny ymlaen llaw fel addasiad rhesymol. Rhaid darparu enw'ch person cymorth, ei berthynas â chi, a'i gyfeiriad e-bost i Reolwr Gwaith Achos y Myfyrwyr cyn y cyfarfod. Mae'r Cyfarwyddwr Gweinyddiaeth Academaidd a Phrofiad Myfyrwyr yn cadw'r hawl i wrthod gadael i berson cymorth fod yn bresennol os penderfynir bod achos o wrthdaro rhwng buddiannau'n gysylltiedig â´r person a enwebwyd. Yn yr achos hwnnw, byddwch yn cael cyfle i enwebu person cymorth gwahanol.

3.5.5 Ar ôl y cyfarfod â'r Cyfarwyddwr Gweinyddiaeth Academaidd a Phrofiad Myfyrwyr (neu enwebai) byddwch chi (fel y parti sy'n ymateb) yn cael eich hysbysu'n ffurfiol, drwy atodiad e-bost, am natur a difrifoldeb yr honiad a wnaed, ac am y camau y mae'r Coleg yn eu cymryd o ganlyniad ('llythyr hysbysu'n ffurfiol am y camau i'w cymryd'].

3.5.6 Ar ôl cael llythyr hysbysu'n ffurfiol am y camau i'w cymryd, rhaid i chi (yn ysgrifenedig, dros e-bost) wrthod yr honiadau neu eu derbyn fel y maent wedi'u cyflwyno ac yn llawn.

3.5.7 Os byddwch chi'n derbyn honiad fel y mae wedi'i gyflwyno ac yn llawn, ni fydd ymchwiliad llawn yn cael ei roi ar waith (gan fod yr honiad wedi cael ei dderbyn). Yn hytrach na hynny, bydd y Cyfarwyddwr Gweinyddiaeth Academaidd a Phrofiad Myfyrwyr yn symud ymlaen yn uniongyrchol "i'r cyhuddiad" (gweler paragraff 7), ni waeth pa mor ddifrifol yw'r drosedd.

3.5.8 Mae amrywiaeth o gymorth ar gael i fyfyrwyr y mae'r honiadau a godwyd yn cael effaith bersonol arnynt. Argymhellir yn gryf eich bod yn cysylltu â'r Tîm Gwasanaethau Myfyrwyr er mwyn derbyn cymorth o bosibl yng nghyd-destun gwneud, neu fod yn destun, honiad.

3.5.9 Fe'ch anogir i godi pryderon heb ofni gwrth-honiad, gyda ffydd bod y Coleg yn cymryd honiadau o gamymddwyn o ddifrif. Ond, ni ddylid byth wneud honiad ar sail faleisus na blinderus (vexatious), ac ni ddylai byth gael ei ddefnyddio fel bygythiad yn erbyn unigolyn. Os canfyddir bod honiad yn fwriadol anwir, camarweiniol, disylwedd neu anonest, gallai hynny gael ei ystyried yn achos o gamymddwyn.

3.6 Rheoli Risg a Mesurau Rhagofalus

3.6.1 Mewn achosion o honiadau o fwlio, aflonyddu, ymddygiad amhriodol neu dreisgar, a beth bynnag fo'ch dymuniadau ynglŷn â'r ffordd ymlaen, bydd angen i'r Coleg ystyried yr angen am fesurau rhagofalus lle tybir bod angen mesurau o'r fath i ddiogelu'r gymuned a/neu fel rhan o reolaeth risg effeithiol. Cyflawnir yr Asesiad Risg gan y Cyfarwyddwr Gweinyddiaeth Academaidd a Phrofiad Myfyrwyr. Wrth ddod i benderfyniad ynghylch mesurau rhagofalus rhoddir ystyriaeth i'r risg ganfyddedig o niwed i'r myfyriwr sy'n adrodd, i'r tramgwyddwr honedig neu'r gymuned ehangach o fyfyrwyr, gan geisio mynd ati ar yr un pryd i gynnal cysylltiad pob parti ag amgylchedd addysgu a dysgu cadarnhaol lle bynnag y bo modd (yng nghyd-destun rhagdybio bod partïon sy'n ymateb yn ddieuog o'r honiad nes profir yn wahanol).

3.6.2 Wrth ddod i benderfyniad ynghylch mesurau rhagofalus, bydd y materion perthnasol isod yn cael ei ystyried:

- natur y camymddwyn honedig
- amgylchiadau'r digwyddiad
- amgylchiadau'r rheini sy'n gysylltiedig ag ef.
- barn Gwasanaeth Erlyn y Goron/heddlu (lle bo'n berthnasol)
- anghenion cefnogi pob parti
- y potensial i'r dioddefwr a'r tramgwyddwr honedig ddod i gysylltiad â'i gilydd
- yr angen i sicrhau y gellir cynnal ymchwiliad llawn a phriodol heb rwystr (naill ai gan yr heddlu neu'r Coleg)
- yr angen i ddiogelu'r myfyriwr sy'n adrodd, y tramgwyddwr honedig neu dystion posibl tra bod yr honiad yn cael ei drin fel rhan o broses droseddol neu ddisgyblu
- dyletswydd gofal y Coleg a buddiannau a lles pawb sy'n gysylltiedig
- y ffordd orau o liniaru risg ganfyddedig tra'n cael yr effaith negyddol leiaf bosibl ar yr un a gyhuddir/dioddefwr honedig ac eraill y gellid effeithio arnynt neu fod yn rhan o'r mater
- yr angen i drin pob parti mor deg ac mor gyfartal â phosibl
- ymarferoldeb a goblygiadau ehangach gosod unrhyw fesurau mewn achosion unigol
- rhesymoldeb a chymesuredd
- ystyriaethau fisa a materion ymarfer proffesiynol

3.6.3 Bydd unrhyw fesurau rhagofalus sy'n angenrheidiol yn cael eu gweithredu heb ragfarn i'r myfyriwr a gyhuddir neu'r dioddefwr honedig neu bartïon eraill fel y bo'n briodol. Ni fydd mesur o'r fath yn cael ei ystyried fel arwydd o euogrwydd.

Gall mesurau gynnwys:

- cyfyngu ar y cysylltiad rhwng y myfyriwr a gyhuddir, dioddefwr honedig neu dystion posibl
- ei gwneud yn ofynnol i unrhyw barti dan sylw symud i lety arall.
- gwahardd y myfyriwr a gyhuddir, y dioddefwr honedig neu bartïon perthnasol eraill rhag cael mynediad i rai mannau neu at rai o gyfleusterau'r Coleg
- aildrefnu grwpiau tiwtorial/seminarau/rihyrsals a pherfformiadau;
- gwahardd y myfyriwr a gyhuddir o'i astudiaethau dros dro tra'n aros am ganlyniad unrhyw ymchwiliad polisi/disgyblu
- nid yw'r rhestr uchod yn hollgynhwysfawr. Gweler hefyd adran 4 Gwaharddiad Dros Dro at Ddibenion Ymchwiliad a 5 Camymddwyn sydd hefyd yn drosedd.

## 4 Gwaharddiad Dros Dro at Ddibenion Ymchwiliad

4.1 Pan fydd honiad yn ddigon difrifol, ac o ganlyniad i asesiad risg a nodir uchod, gall y Cyfarwyddwr Gweinyddiaeth Academaidd a Phrofiad Myfyrwyr gymeradwyo gwahardd parti sy'n ymateb (fel myfyriwr a gyhuddwyd o gamymddwyn) dros dro o'r Coleg wrth aros am ganlyniad ymchwiliad. Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y defnyddir gwaharddiad o'r fath pan ystyrir bod hynny'n angenrheidiol i amddiffyn aelodau'r Coleg.

4.2 Bydd gwaharddiad dros dro fel arfer yn cael ei ddehongli fel gwaharddiad o holl gampysau a gwasanaethau'r Coleg. Fodd bynnag, fel myfyriwr wedi'i wahardd dros dro, cewch ymweld â'r campws i gael mynediad at unrhyw gymorth sydd ei angen mewn perthynas â'r achos ac i fynd i gyfarfodydd fel y trefnwyd.

4.3 Os ydych chi wedi cael eich gwahardd dros dro at ddiben ymchwiliad, cewch gyflwyno sylwadau ynghylch gwaharddiad o'r fath (gan gynnwys sylwadau llafar) i'r Prifathro neu ei enwebai, ac at y dibenion hyn cewch ddod â chynrychiolydd o'ch dewis gyda chi. Os na chymerir camau disgyblu wedyn bydd y Coleg yn sicrhau, cyn belled ag y bo modd, nad ydych chi wedi bod dan anfantais oherwydd y gwaharddiad dros dro.

## 5 Honiadau o Gamymddwyn, lle gallai'r Honiad hefyd fod yn Drosedd

5.1 Mae'r Coleg yn disgwyl i chi roi gwybod i'r heddlu am honiad sy'n drosedd; fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau bydd yr honiad yn cael ei wneud gan y Coleg ar ran y Parti sy'n Adrodd. Mewn amgylchiadau eithriadol, bydd y Coleg yn ceisio cyngor, neu'n rhoi'n gwybod i'r heddlu am drosedd honedig yn groes i ddymuniadau'r myfyriwr neu barti arall sy'n adrodd os bydd angen datgelu'r wybodaeth i ddiogelu'r myfyriwr, neu eraill, rhag niwed neu atal trosedd bellach rhag digwydd. O dan yr amgylchiadau hyn, nid oes unrhyw rwymedigaeth ar y myfyriwr neu'r parti arall sy'n adrodd i siarad â'r heddlu neu fel arall i ofyn am ymchwiliad heddlu. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd Gweithdrefnau'r Coleg yn cael eu hatal dros dro tra bydd yr heddlu'n cymryd camau. Mae'n dal yn bosibl y bydd camau rhagofalus, niwtral, yn cael eu cymryd oherwydd asesiad risg (gweler Adran 3.6).

5.2 Wrth benderfynu a ddylid gwneud datgeliad o'r fath, ac wrth benderfynu pa wybodaeth i'w datgelu, bydd y Coleg yn cynnal Asesiad Risg (gweler Adran 3.6). Bydd y Coleg yn ystyried ei rwymedigaethau o dan y Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data / Deddf Diogelu Data ac unrhyw niwed posibl y gall datgeliad anawdurdodedig ei achosi i chi, y Parti sy'n Adrodd. Os byddwch chi'n penderfynu peidio â chynnwys yr heddlu, byddwch yn dal yn gallu gofyn i'r Coleg ystyried y mater o dan ei reoliadau a'i weithdrefnau. Gall y Coleg, o'i wirfodd, hefyd benderfynu defnyddio'r Weithdrefn Ymddygiad Myfyrwyr. O dan yr amgylchiadau hyn bydd yr achos yn cael ei drin fel achos posibl o dorri'r rheoliadau hyn ac nid fel trosedd.

5.3 Gall ymddygiad a all fod yn drosedd hefyd fod yn gyfystyr â chamymddwyn a allai, yn ogystal ag unrhyw broses droseddol, felly gael ei thrin o dan y polisi hwn, os yw'r ymddygiad hwnnw:

- Wedi digwydd ar safle'r Coleg a/neu'r Brifysgol; a/neu
- wedi effeithio ar aelodau eraill o'r Coleg a/neu'r Brifysgol; a/neu
- wedi niweidio, neu'n debygol o niweidio, enw da'r Coleg a/neu'r Brifysgol.

5.4 Mae'r gweithdrefnau canlynol yn berthnasol lle byddai'r camymddwyn honedig hefyd yn gyfystyr â throsedd o dan gyfraith droseddol pe bai hynny'n cael ei brofi mewn llys barn:

5.4.1 Yn achos pob trosedd arall o dan y gyfraith droseddol, ni ellir cymryd unrhyw gamau disgyblu (ac eithrio gwaharddiad dros dro at ddibenion ymchwiliad, paragraff 4 uchod) o dan y rheoliadau hyn oni bai y rhoddwyd gwybod i'r heddlu am y mater a bod y parti sy'n adrodd naill ai wedi erlyn neu fod penderfyniad i beidio ag erlyn wedi'i wneud, ac ar yr adeg honno gall y Cyfarwyddwr Gweinyddiaeth Academaidd a Phrofiad Myfyrwyr benderfynu a ellir cymryd camau disgyblu o dan y rheoliadau hyn.

5.4.2 Lle gwneir canfyddiad o gamymddwyn a bod y parti sy'n ymateb hefyd wedi'i ddedfrydu gan lys barn mewn perthynas â'r un ffeithiau, bydd cosb y llys yn cael ei hystyried wrth bennu unrhyw gosb o dan y rheoliadau hyn.

## 6 Ymchwiliadau i achosion o gamymddwyn a rôl y Swyddog Ymchwilio – Y Dystiolaeth

6.1 Pan fydd angen cynnal ymchwiliad llawn i honiad ffurfiol o gamymddwyn, bydd y Coleg yn ceisio cychwyn yr ymchwiliad cyn gynted â phosibl ar ôl i'r honiad ffurfiol gael ei gyflwyno, a'i rannu â'r parti sy'n ymateb.

6.2 Bydd Swyddog Ymchwilio yn cael ei benodi, a fydd fel arfer yn uwch aelod o staff ar lefel Pennaeth Adran neu uwch. Bydd y Cyfarwyddwr Gweinyddiaeth Academaidd a Phrofiad Myfyrwyr yn ystyried natur yr honiad, ei ddifrifoldeb canfyddedig, a'r ystod o ganlyniadau posibl. Mewn achosion o gamymddwyn honedig sylweddol a difrifol, gan gynnwys camymddwyn a allai fod yn drosedd, rhoddir ystyriaeth i benodi Swyddog Ymchwilio sy'n allanol i CBCDC, ond sydd, serch hynny, yn meddu ar gymwysterau a hyfforddiant addas. Fodd bynnag, o dan yr amgylchiadau hyn, bydd yr achos yn cael ei ymchwilio fel achos posibl o dorri rheoliadau ac nid fel trosedd.

6.3 Cewch eich hysbysu'n ffurfiol, drwy atodiad e-bost, eich bod yn destun ymchwiliad a phwy yw'r swyddog ymchwilio a fydd yn edrych ar yr achos.

6.4 Pan gânt eu penodi am y tro cyntaf, bydd yn ofynnol i Swyddogion Ymchwilio gynnal sesiwn friffio am eu rôl gyda Rheolwr Gwaith Achos y Myfyrwyr.

6.5 Rôl hanfodol y Swyddog Ymchwilio yw darllen a chlywed yr honiad, casglu gwybodaeth, ar lafar ac o ran deunyddiau, ac adrodd i'r Coleg ar y materion hyn. Bydd Rheolwr Gwaith Achos y Myfyrwyr (neu enwebai) yn darparu Cefnogaeth Weinyddol. Mae'r Swyddog Ymchwilio, ar ôl casglu ac ystyried y dystiolaeth, yn gwneud argymhelliad i'r Coleg ynghylch a ddylid dwyn cyhuddiad o gamymddwyn yn erbyn parti sy'n ymateb ac, os felly, nodi natur y camymddwyn fel y'i diffinnir yn y polisi hwn. *Nid yw'r Swyddog Ymchwilio yn penderfynu ar euogrwydd na diniweidrwydd.*

6.6 Bydd y Swyddog Ymchwilio fel arfer yn ymchwilio i'r honiadau o fewn 30 diwrnod gwaith. Gellir ymestyn yr amserlen drwy gytundeb â'r unigolyn(unigolion) sy'n destun yr honiadau neu, mewn amgylchiadau eithriadol, gan y Coleg. Bydd cyfarfodydd gyda'r partïon perthnasol yn cael eu cynnal wyneb yn wyneb, neu eu hwyluso gan gyfathrebu ar-lein, fel y bo'n briodol.

6.7 Mae'r parti sy'n adrodd a'r parti sy'n ymateb yn cael eu hystyried yn brif bartïon yr honiad, ac yn dystion at ddibenion ymchwiliad. Bydd y Swyddog Ymchwilio yn cynnal cyfweliad ffurfiol â phrif bartïon yr honiad a thystion neu eraill a allai ddarparu gwybodaeth neu dystiolaeth. Bydd cyfarfodydd dilynol yn cael eu trefnu yn

ôl yr angen er mwyn i bob tyst perthnasol gael cyfle i ymateb i honiad newydd neu wybodaeth a ddaeth i'r amlwg yn ystod ymchwiliad. Cedwir cofnod o bob cyfarfod. Gall y Swyddog Ymchwilio hefyd gasglu mathau eraill o dystiolaeth a dogfennaeth sy'n berthnasol i'r achos, megis ffotograffau, gwybodaeth a gedwir ar systemau TG neu ddyfeisiau electronig neu ffilm teledu cylch cyfyng.

6.8 Does dim rhaid i dyst fynd i gyfarfodydd ymchwilio, a gall wrthod yn ffurfiol. Bydd y Coleg yn parchu penderfyniad y tystion hynny sy'n gwrthod mynd ond, yn yr amgylchiadau hyn, bydd unrhyw dystiolaeth/cyfraniad ysgrifenedig neu lafar sydd eisoes wedi cael ei gyflwyno gan y tyst mewn perthynas â'r honiad yn cael ei ystyried yn dystiolaeth 'ail-law (hearsay)'. Mae tystiolaeth ail-law yn derm cyfreithiol am dystiolaeth nad yw'n cael ei phrofi drwy ofyn cwestiynau'n bersonol i'r person sy'n darparu'r dystiolaeth. Y Swyddog Ymchwilio fydd yn penderfynu a ddylai tystiolaeth ail-law gael ei chynnwys fel rhan o sylfaen dystiolaeth yr ymchwiliad. Os bydd yn cael ei chynnwys, bydd y Swyddog Ymchwilio yn penderfynu faint o bwys neu bwysau ddylid ei roi i'r dystiolaeth hon. Mae'n debygol y bydd llai o bwys neu bwysigrwydd yn cael ei roi i dystiolaeth ail-law (os derbynnir y dystiolaeth).

6.9 Ar ôl cwblhau'r ymchwiliad, bydd y Swyddog Ymchwilio yn paratoi adroddiad ysgrifenedig ac yn ei gyflwyno i'r Cyfarwyddwr Gweinyddiaeth Academaidd a Phrofiad Myfyrwyr. Bydd yr adroddiad yn cynnwys adran o gasgliadau, yn mynd i'r afael â'r prif honiadau o gamymddwyn ac yn tynnu sylw at unrhyw agweddau eraill ar gamymddwyn a allai fod wedi'u nodi gan y dystiolaeth. Bydd yr adroddiad hefyd yn cynnwys argymhellion, y gellir eu cyfeirio at y Coleg, at y naill barti neu'r llall yn yr honiad, neu a all ymwneud â phroses a gweithdrefn.

## 7 Ystyried Adroddiad y Swyddog Ymchwilio a Rôl y Cyfarwyddwr Gweinyddiaeth Academaidd a Phrofiad Myfyrwyr – Y Cyhuddiad

7.1 Bydd y Cyfarwyddwr Gweinyddiaeth Academaidd a Phrofiad Myfyrwyr yn ystyried adroddiad y Swyddog Ymchwilio, ei gasgliadau a'i argymhellion, gan gadw mewn cof unrhyw dystiolaeth benodol y gellir ei dwyn i'w sylw.

7.2 Os na fydd y Swyddog Ymchwilio wedi canfod tystiolaeth ddigonol, neu ddim tystiolaeth, o gamymddwyn bydd y Cyfarwyddwr Gweinyddiaeth Academaidd a Phrofiad Myfyrwyr yn gwrthod yr achos ac yn hysbysu pob parti yn ysgrifenedig.

7.3 Pan fydd y Swyddog Ymchwilio wedi dod o hyd i dystiolaeth o gamymddwyn ar lefel isel, bydd y Cyfarwyddwr Gweinyddiaeth Academaidd a Phrofiad Myfyrwyr yn cyflwyno'r cyhuddiad hwn i chi. Fel y 'parti sy'n ymateb', bydd rhaid i chi gwrdd â'r Cyfarwyddwr Gweinyddiaeth Academaidd a Phrofiad Myfyrwyr wyneb yn wyneb er mwyn i'r cyhuddiad gael ei gyflwyno'n ffurfiol i chi. Mae gennych hawl i ddod â rhywun gyda chi i'r cyfarfod hwn, sef "person cymorth" a allai fod yn berthynas, yn ffrind, yn gynrychiolydd ar ran Undeb y Myfyrwyr, neu'n Swyddog Llais y Myfyrwyr. Mae'r person cymorth yn rhoi cefnogaeth yn ystod y cyfarfod, ond does dim disgwyl i'ch person cymorth eich cynrychioli nac eirioli ar eich rhan fel arfer oni bai y cytunwyd ar hynny ymlaen llaw fel addasiad rhesymol. Rhaid darparu enw'ch person cymorth, ei berthynas â chi, a'i gyfeiriad e-bost i Reolwr Gwaith Achos y Myfyrwyr cyn y cyfarfod. Mae'r Cyfarwyddwr Gweinyddiaeth Academaidd a Phrofiad Myfyrwyr yn cadw'r hawl i wrthod gadael i berson cymorth fod yn bresennol os penderfynir bod achos o wrthdaro rhwng buddiannau'n gysylltiedig â´r person a enwebwyd. Yn yr achos hwnnw, byddwch yn cael cyfle i enwebu person cymorth gwahanol. Bydd Rheolwr Gwaith Achos y Myfyrwyr neu enwebai yn rhannu adroddiad o'r cyfarfod â chi.

7.4 Ar ôl cwrdd â'r Cyfarwyddwr Gweinyddiaeth Academaidd a Phrofiad Myfyrwyr, os gwnaethoch chi gyfaddef i'r cyhuddiad, byddwch yn cael hysbysiad ffurfiol, ysgrifenedig o'r cyhuddiad o gamymddwyn ar lefel isel a'r gosb gysylltiedig yn unol ag egwyddorion y Tariff Cosbau (gweler atodiad 1), a'ch hawl i apelio yn erbyn y gosb. Os na wnaethoch chi gyfaddef i'r cyhuddiad, bydd y Cyfarwyddwr Gweinyddiaeth Academaidd a Phrofiad Myfyrwyr yn cyhoeddi hysbysiad ffurfiol, ysgrifenedig o'r cyhuddiad o gamymddwyn ar lefel isel ac yn cyfeirio'r achos at un o Bwyllgorau Disgyblu'r Coleg.

7.5 Os bydd y Swyddog Ymchwilio wedi dod o hyd i dystiolaeth o gamymddwyn difrifol a allai olygu bod angen gwahardd dros dro neu ddiarddel o dan y tariff cosbau (gweler Atodiad 1), bydd y Cyfarwyddwr Gweinyddiaeth Academaidd a Phrofiad Myfyrwyr yn cyflwyno'r cyhuddiad o gamymddwyn i chi'n ysgrifenedig, ac yn cyfeirio'r achos at un o Bwyllgorau Disgyblu'r Coleg.

## 8 Pwyllgor Disgyblu – Pwrpas, Aelodaeth, Swyddogaeth a Chyfrifoldebau

8.1 Cewch eich hysbysu'n ysgrifenedig, fel arfer o leiaf saith diwrnod calendr cyn eich gwrandawiad, pan fydd eich cais wedi cael ei gyfeirio at un o Bwyllgorau Disgyblu'r Coleg. Bydd y llythyr yn nodi'r cyhuddiad o gamymddwyn ac yn manylu ar y dogfennau a'r dystiolaeth fydd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor.

8.2 Mae gennych chi hawl i fynd i Gyfarfod y Pwyllgor Disgyblu, siarad a rhoi tystiolaeth lafar a chael cwmni a/neu eich cynrychioli gan berson cymorth.

8.3 Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Disgyblu yn penderfynu, cyn eich gwrandawiad, a fydd tystiolaeth lafar atodol yn cael ei chlywed. Dylai pob parti gofio y bydd y Swyddog Ymchwilio wedi casglu'r dystiolaeth lafar yn ystod yr ymchwiliad. Os byddwch chi'n dymuno defnyddio tystiolaeth lafar atodol, rhaid i chi hysbysu Rheolwr Gwaith Achos y Myfyrwyr o leiaf 48 awr cyn y dyddiad y bwriedir cynnal y cyfarfod, gan roi enwau a manylion y tystion.

8.4 Gallwch hefyd roi ymateb ysgrifenedig i'r cyhuddiad. Rhaid i Reolwr Gwaith Achos y Myfyrwyr dderbyn yr ymateb hwn o leiaf 24 awr cyn y gwrandawiad a drefnwyd. Os yw'r ymateb ysgrifenedig yn cynnwys elfennau o liniaru, rhaid cael tystiolaeth i ategu hynny.

8.5 Os na allwch chi fynd i wrandawiad ar y diwrnod/amser a roddwyd, am unrhyw reswm, cewch wneud cais am ddyddiad arall, ond dim ond unwaith y cewch chi wneud hynny.

8.6 Cewch ddewis peidio mynd i'r gwrandawiad, ond mewn amgylchiadau o'r fath bydd y gwrandawiad yn parhau yn eich absenoldeb. Os byddwch chi'n dewis peidio mynd i'ch gwrandawiad, argymhellir yn gryf eich bod yn cyflwyno ymateb ysgrifenedig i'r cyhuddiad.

8.7 Bydd aelodaeth y Pwyllgor Disgyblu fel a ganlyn:

- Un aelod o Uwch Dîm Rheoli'r Coleg (Cadeirydd)
- Un aelod o staff y Bwrdd academaidd
- Llywydd Undeb y Myfyrwyr neu enwebai*
- Cofrestrydd Academaidd neu enwebai (Ysgrifennydd)

Ni fydd aelodau'r Pwyllgor Disgyblu wedi bod ag unrhyw gysylltiad blaenorol â'ch achos(ion) nac yn gysylltiedig â chi. Cewch wybod beth yw cyfansoddiad y Pwyllgor Disgyblu cyn i ddogfennau gael eu

dosbarthu, a chewch gyfle i godi unrhyw bryderon ynghylch yr aelodau, er enghraifft os oes gennych sail dros gredu y gallai aelod ddangos rhagfarn.

*Sylwer os yw Llywydd Undeb y Myfyrwyr wedi gwasanaethu ar Bwyllgor Disgyblu achos, ni chaiff wedyn wasanaethu ar Bwyllgor a gynullir i ystyried apêl. Yn yr achos hwn, gall Llywydd Undeb y Myfyrwyr enwebu dirprwy neu gall ofyn i gynrychiolydd o UCM Cymru gyflawni'r rôl hon.

8.8 Mae swyddogaethau'r Pwyllgor Disgyblu fel a ganlyn:

8.8.1 Ystyried adroddiad y Swyddog Ymchwilio, ei gasgliadau a'i argymhellion, a nodi cyhuddiad o gamymddwyn a wneir gan y Coleg o ganlyniad;

8.8.2 Ystyried eich ymateb chi i'r cyhuddiad;

8.8.3 Penderfynu, yn ôl pwysau tebygolrwydd ac yng ngoleuni'r dystiolaeth, a yw'r cyhuddiad o gamymddwyn wedi'i brofi. Wrth wneud hyn, gall y Pwyllgor, yn ogystal ag ystyried adroddiad y Swyddog Ymchwilio a'r dystiolaeth ynddo, hefyd alw ar dystion i siarad yn uniongyrchol â'r Pwyllgor, ond nid oes rheidrwydd arno i wneud hynny;

8.8.4 Ystyried, os na chaiff y cyhuddiad ei brofi, sut bydd y Coleg yn sicrhau, cyn belled ag y bo modd, nad ydych chi wedi bod o dan anfantais oherwydd camau disgyblu;

8.8.5 Ystyried, os profir y cyhuddiad, cosb briodol, gan gyfeirio at y Tariff Cosbau (gweler adran 9 isod ac Atodiad 1). Mae cosbau o'r fath yn cynnwys rhybuddion ffurfiol, gwaharddiad dros dro a diarddel.

Cyflwynir adroddiad y Panel Disgyblu i'r Prifathro fel Cadeirydd y Bwrdd Academaidd.

8.9 Fformat Gwrandawiadau

Dylai gwrandawiadau gan y Pwyllgor Disgyblu fod yn y fformat canlynol:

8.9.1 Yn gyntaf bydd y cyhuddiad o gamymddwyn yn cael ei esbonio gan Gadeirydd y Pwyllgor Disgyblu;

8.9.2 Bydd y Swyddog Ymchwilio* yn cyflwyno ei adroddiad a'r dystiolaeth ategol;

8.9.3 Gofynnir i chi ymateb i'r cyhuddiad a'r dystiolaeth a gyflwynwyd;

8.9.4 Gall y Pwyllgor Disgyblu ofyn cwestiynau i'r Swyddog Ymchwilio neu gwestiynau i'r myfyriwr a gall alw tystion fel y bo'n briodol;

8.9.5 Bydd y Cadeirydd yn gwahodd sylwadau terfynol ac yn crynhoi'r achos;

8.9.6 Bydd y Pwyllgor wedyn yn ystyried yr achos yn breifat ac yn dod i'w gasgliadau.

*lle mae'r camymddwyn wedi'i ystyried gan Swyddog Ymchwilio Allanol ac nad yw'r unigolyn hwn ar gael, gall y Cyfarwyddwr Gweinyddiaeth Academaidd a Phrofiad Myfyrwyr gyflwyno'r adroddiad

Bydd y Pwyllgor yn rhoi gwybod i chi am ganlyniad yr achos o fewn pum diwrnod gwaith i'r gwrandawiad ac yn eich hysbysu o'ch hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad.

## 9 Cosbau (gweler hefyd Atodiad 1)

Lle profir cyhuddiad o gamymddwyn, gan gynnwys drwy gyfaddefiad gennych chi, gellir gosod y cosbau canlynol.

9.1 Rhybuddion Ffurfiol.

Mae tri chategori o rybuddion ffurfiol y gellir eu rhoi yn dibynnu ar ddifrifoldeb yr achos o gamymddwyn.

9.1.1 Rhybudd ffurfiol llafar – gall hwn gael ei roi (wyneb yn wyneb) gan y Prifathro neu'r Cyfarwyddwr Gweinyddiaeth Academaidd a Phrofiad Myfyrwyr (gan gynnwys pan na fydd dadlau ynghylch yr honiadau). Mae gennych hawl i'r rhain gael eu rhoi ym mhresenoldeb 'person cymorth'. Bydd rhybudd ffurfiol llafar yn aros ar gofnod am gyfnod penodol, blwyddyn fel arfer. Os byddwch yn cyflawni trosedd debyg, gallai hynny arwain at argymell i'r Prifathro, neu enwebeion y Prifathro, i chi gael eich atgyfeirio at Bwyllgor Disgyblu.

9.1.2 Rhybudd ffurfiol ysgrifenedig – gall hwn gael ei roi gan y Prifathro neu'r Cyfarwyddwr Gweinyddiaeth Academaidd a Phrofiad Myfyrwyr (gan gynnwys pan na fydd dadlau ynghylch yr honiadau) neu gan Bwyllgor Disgyblu. Bydd rhybudd ffurfiol ysgrifenedig yn aros ar gofnod am gyfnod penodol, blwyddyn fel arfer. Os byddwch yn cyflawni trosedd debyg, gallai hynny arwain at argymell i'r Prifathro, neu enwebeion y Prifathro, i chi gael eich atgyfeirio at Bwyllgor Disgyblu.

9.1.3 Rhybudd ysgrifenedig terfynol – gall hwn gael ei roi gan y Prifathro neu'r Cyfarwyddwr Gweinyddiaeth Academaidd a Phrofiad Myfyrwyr (gan gynnwys pan na fydd dadlau ynghylch yr honiadau) neu Bwyllgor Disgyblu. Bydd unrhyw achosion pellach o gamymddwyn a brofwyd yn cael eu hatgyfeirio'n awtomatig at Bwyllgor Disgyblu, gyda'r disgwyliad o ddiarddel os profir y cyhuddiad pellach o gamymddwyn

9.2 Iawndal (mewn achos o ddifrod).
Efallai y bydd y Prifathro neu ei enwebai neu'r Panel Disgyblu yn gofyn i chi dalu iawndal o hyd at £1000. Mae'r iawndal i'w dalu i'r Coleg neu i berchennog neu feddiannydd yr eiddo a ddifrodwyd neu i'r sawl a anafwyd yn ôl penderfyniad y Prifathro neu'r Pwyllgor Disgyblu. Bydd y Prifathro yn ystyried eich modd a gall ganiatáu amser i ryddhau'r swm neu orchymyn i'r swm gael ei dalu mewn rhandaliadau penodedig.

9.3 Gwaharddiad Dros Dro (disgyblu).
Caiff y Pwyllgor Disgyblu eich gwahardd o'r Coleg dros dro am resymau disgyblu am gyfnod y mae'r Pwyllgor Disgyblu yn ei ystyried yn gyfiawn ac yn rhesymol o dan yr amgylchiadau.

9.4 Diarddel.
Caiff y Pwyllgor Disgyblu eich diarddel o'r Coleg am resymau disgyblu.

Gwneir y penderfyniadau ynghylch pa un o'r cosbau uchod y dylid eu gosod yn unol â'r tariff o gosbau sydd ar gael yn Atodiad 1

## 10 Eich Hawliau Apelio

10.1 Mae gennych hawl i apelio yn erbyn unrhyw gosb a roddwyd

10.2 Rhaid i hysbysiad o apêl gael ei gyflwyno'n ysgrifenedig i Reolwr Gwaith Achos y Myfyrwyr. Rhaid i'r bwriad i apelio ddod i law o fewn 10 diwrnod gwaith ar yr hwyraf i ddyddiad y llythyr (gan y Cyfarwyddwr Gweinyddiaeth Academaidd a Phrofiad Myfyrwyr neu'r Pwyllgor Disgyblu) yn eich hysbysu'n ffurfiol am y cyhuddiad a'r gosb.

10.3 Bydd apêl yn cael ei hystyried ar sail gyfyngedig a llym. Bydd Rheolwr Gwaith Achos y Myfyrwyr yn penderfynu a yw'ch apêl yn gymwys ar sail dangos un o'r canlynol:

- Bod tystiolaeth newydd neu amgylchiadau esgusodol wedi dod yn hysbys na allech fod yn rhesymol wedi rhoi gwybod amdanynt ar adeg yr ystyriaeth gychwynnol;
- Na chynhaliwyd y gwrandawiad gwreiddiol yn deg a/neu yn unol â'r rheoliadau cyhoeddedig;
- Mae'r seiliau ar gyfer gwneud apêl yn erbyn gwaharddiad dros dro neu ddiarddeliad fel uchod ac yn ogystal, bod y gosb wreiddiol a osodwyd yn ormodol dan yr amgylchiadau.

Ni fydd apêl yn cael ei hystyried oni ddangosir o leiaf un o'r uchod gyda thystiolaeth.

10.4 Bydd apeliadau cymwys yn erbyn cosbau a osodwyd gan y Pennaeth neu'r Cyfarwyddwr Gweinyddiaeth Academaidd a Phrofiad Myfyrwyr yn cael eu hystyried ar lefel weithredol gan uwch aelod o'r Coleg sydd heb ymwneud o gwbl â'r achos/ion yn flaenorol ac nad yw'n gysylltiedig â chi.

10.5 Bydd apeliadau cymwys yn erbyn casgliadau'r Pwyllgor Disgyblu, a'r cosbau a osodwyd ganddo, yn cael eu hystyried gan Bwyllgor Disgyblu ar gyfer Apeliadau.

10.6 Mae aelodaeth o Bwyllgor Disgyblu ar gyfer Apeliadau yr un fath ag aelodaeth o Bwyllgor Disgyblu (gweler paragraff 8.6). Fel arfer, ni chaiff aelodau'r Pwyllgor Disgyblu a osododd eich cosb wreiddiol fod yn aelodau o'ch Pwyllgor Disgyblu ar gyfer Apeliadau. Rheolwr Gwaith Achos y Myfyrwyr yw'r ysgrifennydd ar gyfer pob cyfarfod panel, ond caiff enwebu rhywun arall.

10.7 Cewch wybod cyfansoddiad y Pwyllgor Disgyblu ar gyfer Apeliadau cyn i'r dogfennau gael eu dosbarthu, a chewch gyfle i godi unrhyw bryderon ynghylch yr aelodaeth – er enghraifft, os oes gennych sail dros feddwl y gallai aelod ddangos rhagfarn.

10.8 Byddwch yn cael eich gwahodd i gyflwyno sylwadau ynghylch eich apêl wyneb yn wyneb, a chewch ddod â pherson cymorth gyda chi i bob cyfarfod o fewn y weithdrefn hon.

10.9 Caiff penderfynwr yr apêl (naill ai uwch aelod o'r Coleg neu Bwyllgor Disgyblu ar gyfer Apeliadau) gadarnhau neu ddiwygio'r gosb a roddwyd, gan gyfeirio at yr holl gosbau sydd ar gael, fel y mae'n gweld sy'n briodol.

10.10 Bydd penderfyniad yr apêl yn derfynol, ac fel arfer cewch eich hysbysu o'r penderfyniad o fewn 10 diwrnod gwaith.

10.11 Os bydd eich apêl yn llwyddiannus a bod cosb yn cael ei dileu, bydd y Coleg yn sicrhau i'r graddau y bo modd nad ydych chi'n wynebu anfantais o ganlyniad i unrhyw gamau disgyblu neu waharddiad dros dro.

## 11 Hysbysu Eraill o'r Canlyniad

11.1 Mae'r Coleg yn deall y bydd partïon sy'n adrodd yn dymuno gwybod canlyniad eu honiad. Fodd bynnag, rhaid nodi, er y gall myfyrwyr honni camymddwyn, mai'r Coleg sy'n codi'r cyhuddiad yn erbyn myfyriwr, a'r Coleg fydd yn ateb y cyhuddiad. Mewn rhai achosion, gall ymchwiliad neu elfennau eraill o gamau disgyblu fod wedi nodi materion sy'n gyfrinachol; ac eto mewn eraill, bydd gan fyfyriwr y cymerir camau yn ei erbyn hawl i gyfrinachedd ac amddiffyniad o dan GDPR.

11.2 Bydd y Coleg fel arfer yn hysbysu'r Parti sy'n Adrodd a yw'r honiad wedi cael ei gadarnhau (ai peidio), a pha gosb a roddwyd. Ni fydd unrhyw fanylion eraill yn cael eu rhannu.

11.3 Ni fydd y Coleg fel arfer yn hysbysu eraill am y canlyniad, gan gynnwys myfyrwyr neu staff a alwyd fel tystion, heb ganiatâd penodol y prif bartïon. Rhennir manylion camau disgyblu â staff y Coleg dim ond i'r graddau sy'n ofynnol er mwyn iddynt allu cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau.

11.4 Bydd adroddiadau sy'n honni camymddwyn yn cael eu cadw drwy gydol cylch oes y myfyriwr yng nghyswllt y pwnc sy'n destun yr adroddiad, ond bydd yn cael ei archifo'n syth wedyn.

## 12. Cais am Adolygiad gan y Parti sy'n Adrodd/Tystion

Nid oes gan y Parti sy'n Adrodd hawl i apelio. Ond os byddwch chi (fel y Parti sy'n Adrodd) yn anfodlon â'r ffordd mae'r rheoliadau a'r gweithdrefnau wedi cael eu gweinyddu, gallwch gyflwyno cwyn gan ddefnyddio Trefn Gwyno'r Myfyrwyr i wneud cais, ymysg pethau eraill, am adolygiad o'r gwaith achos a chadarnhad ysgrifenedig bod y rheoliadau a'r gweithdrefnau wedi cael eu dilyn. Rhaid i'r gŵyn hon gael ei chyflwyno o fewn 10 diwrnod i'r dyddiad y cawsoch eich hysbysu'n ffurfiol am ganlyniad eich honiad. Bydd y gŵyn ffurfiol hon yn cael ei hystyried o dan ddarpariaeth ar wahân. Gellir gofyn am gyngor ac arweiniad gan Swyddog Llais y Myfyrwyr ar gyflwyno cwyn ffurfiol.

## 13. Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol

Bydd y Coleg yn ysgrifennu at y myfyriwr y cymerwyd camau yn ei erbyn ar ôl i bob opsiwn posibl i apelio gael ei ddilyn, i nodi bod y gweithdrefnau ffurfiol wedi'u cwblhau. Gelwir hwn yn Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau.

Ar ôl i lythyr Cwblhau Gweithdrefnau gael ei gyhoeddi, gallwch gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (OIA). Mae manylion yr OIA a'r wybodaeth berthnasol mewn perthynas â'r Cynllun ar gael yn www.oiahe.org.uk. Gellir cael rhagor o wybodaeth a chyngor gan y Cofrestrydd Academaidd.